

**Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd
Yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 yh nos Fercher 18^{fed} Medi 2019**

Preseennol: *J H Owens (Cad), M T Smithurst, W Hughes, R F Owen, C Davies, A Jones, Cyng P Rogers, Cyng Bryan Owen, Mr a Mrs Mahon, Pwyllgor Neuadd Glannau Ffraw*

Ymddiheuriadau: *R B Owen, C G Topps, K Woods, S Austin, E Evans, A Hughes*

1. Neuadd Glannau Ffraw

Diweddariad gan Mr a Mrs Mahon mewn perthynas â Neuadd Glannau Ffraw fel a ganlyn:

- Clybiau cymunedol Min y Môr wedi eu cynnal yn y neuadd yn ystod y gwaith atgyweirio ar neuadd gymunedol Min y Môr.
- Yr adeilad wedi ei baentio a digwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn dydd Gwener. Y gwaith i'w ariannu gan gyllid o gronfa gymunedol New Forest Energy. Yr arian i'w drosglwyddo yn uniongyrchol i bwyllgor y neuadd gan Ystad Bodorgan.
- Drysau tâm wedi cael eu gosod
- Disgwylir y bydd yr hysbyswrdd wedi ei osod wythnos nesaf
- Ramp i'w gosod yn lle'r grisiau wrth y drws tân y tu allan i'r adeilad.
- Y boiler wedi derbyn gwasanaeth. Cost ychwanegol gan fod angen gosod tanc ac adnewyddu rhai darnau. Sin car gyfer mop hefyd wedi ei osod.
- Cynllun grant RHI– angen tystysgrif. Mrs Mahon wedi gwneud ymholiadau gyda Mr Keith Woods ond nid yw'r tystysgrif ar gael. Mrs Mahon i barhai iwneud ymholiadau gyda Grants Heating.
- Arwydd sy'n dangos lleoliad y toiled cyhoeddus i'w ddarparu gan y Cyngor Sir
- Angen llinellau melyn ar du blaen y maes parcio i scrhau fod ceir yn gadael lle i gerbydau anabl gael mynediad at y llwybrwrth ochr y neuadd. Cyng P Rogers i wneud ymholiadau.
- Gwfan a thudalen Facebook bellach yn weithredol ac amryw wedi trefnu i wneud defnydd o'r adeilad. Cyng B Owen yn llongyfarch Pwyllgor y Neuadd ar y gwaith sydd wedi ei wneud. Pawb yn gytun.

2. Cofnodion

Cafodd cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17/07/2019 eu derbyn yn gywir. Cynnigwyd gan MTS ac eilwyd gan AJ a CD.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Richard E Rowlands i'r cyfarfod. Bydd Mr Rowlands yn cymryd drosodd fel Clerc.

3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 17/07/2019

3.1 Croesffordd Dothan– arwyddbost newydd – Cyng P Rogers yn adrodd ei fod wedi ymweld â Chanolfan Byron a'i fod wedi ei hysbysu eu bod wedi bod brysur iawn. Cyng Rogers i wneud ymholiadau pellach.

3.2 Gor-dyfiant ar y ffin rhwng y llwybr troed ym Maes Llywelyn a'r cae chwarae– JHO yn adrodd y bydd Mr Liam Jones yn chwistrellu'r ardal gyda chwynladdwr cyn diwedd yr wythnos.

3.3. Bro Branwen – Canllaw wedi ei osod ar y llwybr yn arwain ar eiddo.

3.4. Porth Trecastell – Llienallau melyn – Cyng B Owen yn cadarnhau fod y gorchymyn mewn perthynas â'r gwaharddiadau parcio wedi ei gyflwyno ar 19/7/2019.

3.5 Wal derfyn - Pryderon wedi eu datgan gan AJ ynglyn â chyflwr y wal derfyn rhwng y llwybr troed a'r tai yng nghefn y neuadd. Cyng B Owen yn adrodd fod peirannydd wedi ymweld â'r safle ar 29/07/2019.

Ymddengys fod y ffin berthnasol yn ymwneud â 2 eiddo. Ymholiad i barhau.

3.6 Prince Llewelyn – Cais i gymeradwyo “gorchymyn diddymu priffordd”- Dim gohebiaeth bellach gan Mr a Mrs Harwood.

3.7 Erydiad y ffordd sy'n arwain at Lyn Coron – Cyng P Rogers yn adrodd ei fod wedi cysylltu â Dwr Cymru

4. Ceisiadau Cynllunio

Rhiff 4, Bynglos, Stryd Llewelyn – Ehangu ac addasiadau. – Dim sylwadau

5. Adolygu'r Gyllideb – Chwarter 1

Crynoded o'r gwariant a'r incwm ar gyfer y chwarter wedi ei ddarparu. Yr holl wariant o fewn y gyllideb ar wahan i'r cae chwarae o gynlyn i'r gost ychwanegol o dorri canghenau a mieri. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan AJ y dylid trosgwyddo swm o £1000.00 o'r arian wrth gefn i gyllideb y Cae Chwarae.

6. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Ymgynghoriad wedi dechrau. Cyng B Owen yn adrodd nad oes unrhyw newidiadau ar y gweill mewn perthynas â ward Aberffraw. Adroddwyd fod Cyngor Cymuned Bodorgan wedi cytuno i anfon llythyr yn datgan dynuiad i ddychwelyd i wardiau un aelod. Cafwyd trafodaeth ynglyn â manteision wardiau un aelod yn arbennig felly y gallu i gadw hunaniaeth yr ardal. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan RFO fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn anfon llythyr tebyg. Pawb yn cytuno.

7. Gohebiaeth

7.1 Annibynniaeth i Gymru – cais drwy ebost gan Cyng E Evans yn holi'r aelodau yngly â'u barn ar annibynniaeth i Gymru gan fod nifer o Gynghorau Cymuned wedi datgan eu cefnogaeth i'r Yes Cymru Campaign. Y mwyafrif o aelodau a oedd yn bresennol yn erbyn annibynniaeth.

7.2 Cyngor Sir Ynys Môn – Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18/7/2019.

7.3 Un Llais Cymru – Gwybodaeth ynglyn â Cynnal a Gwella Cynlluniau Bio-amrywiaeth.

7.4 BT – Gwybodaeth ynglyn â dileu hen flychau ffôn nad ydynt yn cael eu defnyddio. Blwch ffôn ar Sgwar Bodorgan i'w ddileu. JHO i arddangos y rhybudd yn Swyddfa'r Post.

7.5 Cyngor Cymuned Llanrug – Llythyr yn gofyn am gefnogaeth i wrthwynebu'r amodau a osodwyd gan Gymdeithas Pel droed Cymru ar glybiau pel droed. Cyng B Owen yn adrodd fod Clwb Pel droed Aberffraw wedi sicrhau fod y cae yn cwrdd â'r holl amodau. Y gwaith wedi ei ariannu o ffynonhellau gwahanol yn cynwys Cymdeithas Pel droed Cymru.

7.6 Morlais – Rhybudd ynglyn â chais am safle arddangos. Nodwyd y cynnwys.

8. Unrhyw fater arall

8.1 Gor-dyfiant o goed dros balmant – Pryderon ynglyn â choed yn 26 Sgwar Bodorgan. Cyng P Rogers a Cyng B Owen i gysylltu ag Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn.

8.2 Min y Môr – Pryderon ynglyn â chwyn a dalen poethion yn tyfu ger y fynedfa isaf. Cyng P Rogers a Cyng B Owen i gysylltu ag Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn.

8.3 Arwydd Ildiwech wrth Bragdy – WH yn adrodd nad oes gorchydd tros y gwifrau trydan. Cyng B Owen i ymchwilio.

8.4 Llys Llewelyn – MTS yn datgan pryderon ynglyn â phenderfyniad Agoriad i gau y caffi ar benwythnosau. Adroddwyd fod y staff yn gweithio mewn lleoliad yng Nghaerdybi. Cafwyd adroddiadau fod nifer o drigolion lleol ac ymwelwyr wedi datgan eu siom. Clerc i gysylltu â Mr Arthur Beechy, Prif Weithredwr Agoriad.

8.5 Y fynwent – Pryderon fod eiddew yn difrodi'r wal. JHO i ymchwilio.

8.6 Sioe Aberffraw – Cytunwyd fod y sioe wedi bod yn llwyddiant mawr. Pwyllgor y sioe i'w llongyfarch.

9. Cyllid

Taliadau:

21/07/2019	Anglesey Computer Solutions	Diweddarau'r wefan	£ 40.00
27/07/2019	Noticeboard Company	Hysbysfwrdd	£1180.80
31/08/2019	Liam Jones	Torri – y fynwent/cae chwarae	£1670.00
31/08/2019	Sioe Aberffraw	Rhodd	£ 200.00
31/08/2019	M&G Windows	Drysau i'r neuadd	£3876.00
18/09/2019	O Fowlie	Torri gwrychoedd	£ 576.00

Derbyniadau:

03/09/2019	Preswylfa Ltd	Y fynwent	£ 75.00
03/09/2019	Amrywiol	Rhent	£ 503.00